Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Y Gorlan Fach

Y Caban
Ysgol Gynradd y Gorlan
Tremadog
LL49 9RN

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Y Gorlan Fach

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Y Gorlan Fach |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gwen Meinir Raine a Lindsay Ireland-Roberts |
| Person â gofal | Sian Owen |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 13 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8:30 y.b. – 3:30 y.p. dydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hwn yw'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers i'r gwasanaeth ailgofrestru ar 10 Tachwedd 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2017 |

| | |
|---|---|
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 04/03/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn .

## Argymhellion

A1. Gwella dealltwrieth oedolion o sut i gwestiynu yn effeithiol er mwyn sicrhau datblygiad pellach ym medrau'r plant.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â darparu cyfleoedd cynhwysol i wneud dewisiadau ac i gymryd risgiau addas, i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn y lleoliad. Maent yn ymgartrefu ac ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni neu ofalwyr ar ddechrau sesiynau. Mae'r lleiafrif o blant sydd angen mwy o gefnogaeth yn derbyn llawer iawn o gysur ac annogaeth gan ymarferwyr, sy'n eu helpu i deimlo'n sicr ac i ymuno'n hapus i chwarae gyda'u ffrindiau. Mae'r holl blant yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac maent yn dewis sut i dreulio'u hamser yn effeithiol iawn. Maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd dysgu yn rhwydd ac yn hyderus, gan ddewis o'r ystod eang o weithgareddau. Mae hyn yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus. Mae barn a dewisiadau'r plant yn cael eu flaenoriaethu gan ymarferwyr, gyda'u hanghenion unigol yn cael eu hystyried a'u diwallu trwy'r amser. Er enghraifft, maent yn medru mynegi pan nad ydynt eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau megis brwsio dannedd tan eu bod nhw'n barod i'w gwneud.

Mae bron bob plentyn yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth rannu syniadau ac ateb cwestiynau syml. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn gwerthfawrogi'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud. O ganlyniad, mae bron bob un yn datblygu perthynas gadarnhaol iawn â'r ymarferwyr, sy'n caniatáu iddynt ymdopi'n dda â phrofiadau newydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, gyda llawer yn dangos balchder tuag at eu gwaith ac yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn awyddus i ddangos eu gwaith creadigol ac i gynnwys yr ymarferwyr yn eu chwarae. Maent yn ymfalchïo wrth dderbyn canmoliaeth gan ymarferwyr am eu hymdrechion. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n aeddfed â'r gweithdrefnau. Er enghraifft, maent yn cerdded draw at yr ymarferwyr wrth glywed '*1,2,3, yn ôl ata i'* ac yn eistedd yn ddi-ffwdan yn y man priodol yn yr ardal goedwig pan mae hi'n amser byrbryd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau cymdeithasol cadarn ac yn barod i rannu teganau ac adnoddau. Er enghraifft, maent yn hapus i gymryd tro a chydweithio wrth adeiladu strwythur gyda'r pibellau golau ac wrth rannu adnoddau yn y twba dŵr. Maent yn sgwrsio'n hapus wrth chwarae ac maent yn awyddus i rannu profiadau â'u ffrindiau ac ymarferwyr, yn galw arnynt yn frwdfrydig i ddangos y pethau sy'n ennyn eu diddordeb.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n ddiwyd wrth fynd i'r afael â thasgau. Mae bron bob plentyn yn mwynhau datrys problemau ac arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau creu paent gan ddefnyddio mwd a dŵr. Maent yn dyfalbarhau wrth lenwi'r powlenni gyda phridd a dŵr a'u cario draw at y bwrdd yn ofalus. Maent yn ofalgar wrth ddefnyddio'r brwsys i gymysgu'r paent cyn mynd ati i beintio'r ffens. Mae bron bob plentyn yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn arbrofi gyda'r clai i greu crempogau, gan ychwanegu brigau a dail atynt.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau yn ôl eu diddordebau ac yn datblygu medrau annibynnol rhagorol. Er enghraifft, maent yn helpu i dorri ffrwythau ac arllwys eu diod eu hunain yn ystod amser byrbryd, gan ddysgu i drin cwpanau tegan yn ofalus. Mae bron bob plentyn yn datblygu annibynniaeth dda wrth ymgymryd â thasgau hunanofal, fel gwisgo eu cotiau, golchi eu dwylo a chadw eu bagiau a'u cotiau yn eu bocsys unigol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad:  Rhagorol

Mae'r holl ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelu ac yn dilyn gweithdrefnau cadarn er mwyn sicrhau bod plant yn cadw'n iach a diogel. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r arferion o'u hyfforddiant ar ddiogelu plant yn effeithiol ac yn deall eu dyletswyddau'n dda. Mae'r mwyafrif wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf ac maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol, gan sicrhau bod rhiant yn ymwybodol o'r digwyddiad. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r holl ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau trylwyr er mwyn atal lledaenu heintiau. Maent yn dilyn arferion effeithiol wrth drin bwyd a newid cewynnau, ac yn annog y plant i olchi eu dwylo. Maent yn hyrwyddo bwyta'n iach a gweithgareddau ymarfer corff yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i fwyta ffrwythau yn ystod amser byrbryd ac maent yn cynnig dŵr yfed iddynt trwy gydol y sesiwn. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i'r plant dreulio amser tu allan yn yr awyr iach yn gyson. Maent yn darparu ystod helaeth o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cynnal sesiynau nofio wythnosol ac yn cynllunio bod y plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn yr ardaloedd tu allan.

Mae’r holl ymarferwyr yn ffurfio perthnasau hynod gadarnhaol â’r plant. Maent yn amyneddgar, yn siarad â’r plant yn dyner ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol iawn wrth chwarae ochr yn ochr â’r plant. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac yn rhoi esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae’r ymarferwyr yn canmol y plant yn rheolaidd a dathlu eu hymdrechion yn gyson. O ganlyniad, mae’r plant yn datblygu eu hunanhyder yn fuddiol iawn.

Mae ymarferwyr yn dilyn trefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn casglu llawer o wybodaeth am hoffterau, anghenion unigol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn yn y lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol a darparu ar gyfer eu hanghenion unigol. Maent yn darparu cymorth cyson i’r plant sydd ei angen, ac yn bwydo iaith yn hynod effeithiol drwy siarad yn gyson am beth maent yn ei wneud. Mae gweithdrefnau cadarnhaol ar waith i gyfeirio plant at gymorth gan asiantaethau allanol, os oes angen.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod o gyfleoedd rhagorol i blant, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag anghenion, arbrofi, archwilio a chymryd risgiau priodol yn eu chwarae. Maent yn cynllunio sesiynau rheolaidd i goginio ar y tân yn yr ardal goedwig, yn ogystal â gweithgareddau diddorol lle mae plant yn defnyddio offer adeiladu yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn dangos cyffro amlwg wrth goginio popcorn yn y goedwig ac yn hyderus wrth arbrofi gyda morthwyl a llif. Mae ymarferwyr yn darparu cefnogaeth ychwanegol i’r plant sydd ei hangen i gymryd rhan yn ddiogel ac yn amrywio’r dyddiau ar gyfer sesiynau nofio a sesiynau tu allan yn y goedwig bob tymor. O ganlyniad, mae pob plentyn yn cael eu cynnwys ym mhob un o’r sesiynau amrywiol. Mae hyn yn gryfder yn y lleoliad cynhwysol hwn.

Mae ymarferwyr yn cyfathrebu’n gyson â rhieni trwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy gwblhau dyddiaduron dyddiol. Maent yn creu llyfrau pwrpasol i rannu â rhieni ar ddiwedd pob blwyddyn, sy’n cynnwys ffotograffau o’r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a rhai o’u llwyddiannau. Mae ymarferwyr yn cynnal diwrnodau agored rheolaidd er mwyn caniatáu i’r rhieni weld y gweithgareddau amrywiol a’r adnoddau sy’n cael eu darparu. O ganlyniad, mae rhieni’n  magu ymwybyddiaeth gyfredol am ddatblygiad eu plant.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn llwyddo i greu awyrgylch gynhwysol sy’n cefnogi pob un plentyn. Mae gan ymarferwyr ffordd naturiol o adael i’r plant wneud dewisiadau am eu dysgu. gan sicrhau cyfleoedd hir a di-dor iddynt ymgolli yn eu chwarae. O ganlyniad, maent yn dod i adnabod hoffterau a chryfderau’r plant yn dda sy’n golygu eu bod yn gwybod sut i ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau gwerthfawr i gefnogi datblygiad medrau cyfathrebu a rhifedd y plant. Er enghraifft, maent yn darparu rysáit briodol yn y gegin fwd sy’n annog plant i ddilyn cyfarwyddiadau, cyfrif a mesur cynhwysion. Yn ogystal, maent yn cynnig casgliad o lyfrau ffeithiol a ffuglen perthnasol yn yr ardaloedd tu fewn a thu allan. O ganlyniad, mae llawer o’r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn dechrau trin llyfrau fel darllenwyr. Mae ymarferwyr yn fodelau iaith da ac yn annog plant yn naturiol i ddefnyddio termau Cymraeg wrth gyd-chwarae â nhw. Maent yn hyrwyddo datblygiad iaith plant yn dda ac yn ymestyn eu geirfa yn briodol. Fodd bynnag, nid yw’r ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i ymestyn iaith a medrau’r plant drwy holi ymhellach.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o gyfleusterau tu hwnt i’r lleoliad er mwyn datblygu medrau corfforol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn cynllunio sesiynau wythnosol yn yr ardal goedwig yn llwyddiannus ac yn ymweld â’r parc lleol yn rheolaidd. Mae nifer o ymarferwyr yn dilyn trywydd y plant yn fwriadus er mwyn galluogi’r dysgu yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn chwarae gêm ‘ffon hud’ yn y goedwig lle maent yn rhoi swyn ar ei gilydd i droi’r llall yn greadur gwahanol, ac mae’r ymarferydd wedyn yn symud yn briodol fel y creaduriaid hyn. Ar ôl modelu’r iaith, maent yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i’r plant ddefnyddio’r patrymau brawddeg i chwarae’r gêm.

Mae ymarferwyr yn adnabod cryfderau plant yn dda ac yn dechrau defnyddio’u arsylwadau’n fwriadol i’w cynorthwyo i symud y dysgu yn ei flaen. Maent yn adrodd ar eu datblygiad yn briodol ac mae hyn yn gymorth i arweinwyr gynllunio’r camau nesaf yn nysgu’r plant. O ganlyniad, mae plant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn dda. Er enghraifft, maent yn dathlu Dydd Miwsig Cymru drwy annog plant i wrando ar fiwsig Cymraeg ac arbrofi ag offerynnau amrywiol megis gitâr, i greu eu miwsig eu hunain. O ganlyniad, mae’r plant yn datblygu hoffter at gerddoriaeth Gymraeg a medrau creadigol cadarn.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau pwrpasol i godi ymwybyddiaeth plant am ddiwylliannau gwahanol, er enghraifft trwy wahodd ymwelydd gyda nadroedd i’r lleoliad wrth ddathlu Blwyddyn Tsieineaidd y neidr. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod plant yn ymgysylltu â’u dysgu’n effeithiol ac yn gwneud cynnydd da yn eu dealltwriaeth o’r byd ehangach.

Mae ymarferwyr yn trefnu digwyddiadau gwerthfawr sy'n canolbwyntio ar les y plant a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, yn ystod wythnos iechyd meddwl, trefnwyd prynhawn 'sba' i'r plant i ymlacio, yn ogystal â thaith gerdded yn y gymuned i ddosbarthu blodau a neges garedig i'r trigolion. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu gwerthoedd moesol da a dealltwriaeth gynnar o sut i fod yn ddinasyddion parchus a gofalgar.

## Yr amgylchedd: Rhagorol

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith i wirio bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu'r peryglon posibl a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal risgiau i blant ac mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol priodol. Maent yn mynd i'r afael ag unrhyw beryglon sy'n cael eu canfod yn gyflym ac yn effeithiol. Maent yn cynllunio'n drylwyr ar gyfer gweithgareddau lle mae'r plant yn cael cymryd risgiau drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn cynllunio sesiynau lle mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddringo coed ac i gynnau tân yn yr ardal goedwig. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i gymryd rhan ac yn cwblhau asesiadau risg trylwyr er mwyn sicrhau bod digon o gefnogaeth a chamau ychwanegol yn eu lle, fel y bo'n briodol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn braf a chyfforddus gyda digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Maent yn sicrhau bod plant yn cael synnwyr o berthyn trwy arddangos esiamplau o'u gwaith a ffotograffau ar y waliau. Mae'r ystafell chwarae wedi ei threfnu'n effeithiol dros ben gydag ystod eang o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol a gwrthrychau go iawn. Mae hyn yn rhoi digon o gyfleoedd i blant arbrofi, archwilio ac i ddysgu am y byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae'r ardal goedwig yn cynnig ystod helaeth o brofiadau i'r plant arbrofi ac archwilio'r dail, pridd, mwd a'r coed. Mae peiriannau a gwrthrychau go iawn yn yr ardal chwarae rôl yn helpu'r plant fedru trin offer yn ofalgar ac i ddatblygu medrau annibyniaeth. Mae arweinwyr yn cynllunio'n drylwyr sut mae'r adnoddau a'r ardaloedd yn cael eu trefnu er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael cymryd rhan ym mhob gweithgaredd. Maent hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o bob gofod sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, maent wedi creu cwrs antur yn yr ardal o amgylch cefn yr adeilad er mwyn rhoi cyfle buddiol i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol yn effeithiol.

Mae arweinwyr wedi datblygu'r ardaloedd chwarae tu allan i gynnig amrywiaeth dda iawn o weithgareddau a chyfleodd pwrpasol i blant chwarae a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae ceginau mwd, ardal chwarae dŵr, offer dringo ac ardaloedd synhwyrol ar gael i'r plant. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt arbrofi a chwarae rôl yn naturiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod wych o adnoddau ac offer diddorol ar gael yn yr ardal tu fewn. Mae'r rhain o ansawdd da iawn ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae ymarferwyr yn cadw cofnod trylwyr o ba bryd mae'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau'n cael eu glanhau. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n lân.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae arweinwyr gofalgar yn llwyddo i greu ethos hynod gartrefol a chynhwysol lle mae plant yn gwneud cynnydd, ni waeth beth yw eu mannau cychwyn. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos iawn gyda'r ymarferwyr sy'n sicrhau bod eu disgwyliadau uchel yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y plant. Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n cael ei rhannu ag ymarferwyr a rhieni yn llwyddiannus. Mae polisïau'r lleoliad yn glir, sy'n rhoi gwybodaeth drylwyr i ymarferwyr. Mae hyn yn eu galluogi i ddilyn gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol iawn ac yn helpu'r lleoliad i redeg yn esmwyth.

Mae arweinwyr yn gweithredu systemau recriwtio diogel ac mae ganddynt drefniadau effeithiol i werthuso perfformiad ymarferwyr. Mae trefniadau goruchwyliaeth wedi eu sefydlu'n gadarn, sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn cael trafod anghenion hyfforddi unigol yn ôl eu blaenoriaethau personol ac anghenion datblygiad y ddarpariaeth.

Mae gan y lleoliad ddogfen hunanwerthuso drylwyr iawn sy'n dangos camau gweithredu clir yn erbyn targedau realistig. Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau llwyddiannus i adnabod cryfderau'r lleoliad a meysydd i'w datblygu ac yn dangos yn glir sut mae'r ddarpariaeth wedi gwella dros amser. Ni nodwyd unrhyw achos o dorri rheoliadau na safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr arolygiad.

Mae disgwyliadau uchel gan arweinwyr sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu'n broffesiynol. Mae ymarferwyr yn barod iawn i dderbyn cyngor gan gydweithwyr ac yn awyddus iawn i wella eu hunain. Mae arweinwyr yn mentora ymarferwyr yn feistrolgar wrth ddatblygu rôl yr oedolyn sy'n galluogi'r dysgu. Mae ymdeimlad cryf o welliant parhaus sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar ddysgu a lles y plant. Er enghraifft, mae llawer o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant i gynnal sesiynau addysgol yn yr ardal goedwig, sy'n fuddiol iawn er mwyn datblygu medrau'r plant yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn ystyried costau yn fanwl wrth ddatblygu'r ddarpariaeth drwy staffio ac adnoddau. Maent yn gwneud defnydd bwriadus o grantiau i gyfoethogi'r amgylchedd dysgu. Er enghraifft, maent wedi defnyddiau grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar i ddatblygu'r ardal allanol drwy osod cysgod i ganiatáu dysgu yn yr awyr agored ym mhob tywydd, a chwrs antur i ddatblygu medrau corfforol y plant. Mae hyn yn cael effaith ragorol ar ddatblygiad lles y plant yn ogystal â chynnig darpariaeth awyr agored o safon uchel.

Mae ymarferwyr yn cyfathrebu'n fwriadus â rhieni er mwyn iddynt allu cefnogi'r plant yn briodol. Er enghraifft, mae rhieni'n  cael cyfle i rannu gwybodaeth am eu teuluoedd, hoffterau a diddordebau eu plant. Mae'r lleoliad yn annog rhieni i gynnig eu barn am faterion i wella'r lleoliad.

Mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli rhwng y lleoliad a'r gymuned leol. Er enghraifft, aethant ar daith o gwmpas y gymuned yn ystod wythnos iechyd meddwl i ddosbarthu blodau, ynghyd â nodyn caredig. O ganlyniad, roeddent wedi codi calon pobl y gymuned a dderbyniodd rodd. Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn â'r ysgol i drefnu digwyddiadau gwerthfawr. Mae'r profiadau hyn yn sicrhau bod y plant yn pontio'n llwyddiannus ac yn symud yn ddeallus o un cyfnod o'u haddysg i'r cam nesaf. Mae arweinwyr wedi meithrin cysylltiad cadarn â'r athro ymgynghorol lleol sy'n allweddol wrth gefnogi ymarferwyr i roi systemau effeithiol iawn ar waith sy'n diwallu anghenion pob un plentyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/05/2025